**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AC
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Tachwedd 2016

Annwyl Russell

Diolch yn fawr am eich llythyr dyddiedig 4 Tachwedd ar ran Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau. Rwy'n falch eich bod wedi cael cyfle i drafod gwaith yr Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru gyda'r Athro Diamond.

Rwy'n croesawu'r sylwadau y mae'r Pwyllgor wedi'u cyflwyno mewn perthynas â'r Adolygiad ac yn ddiolchgar eich bod wedi gallu rhannu'r canfyddiadau a'r argymhellion a ddeilliodd o'r sesiwn i randdeiliaid a drefnwyd gan y Pwyllgor.

Byddaf yn cyhoeddi ymateb manwl Llywodraeth Cymru i argymhellion Adolygiad Diamond, ynghyd ag ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer cyllid myfyrwyr, ar 22 Tachwedd yn dilyn datganiad i'r Senedd.

Rwyf o'r farn bod angen setliad cyllid cynaliadwy a blaengar ar gyfer addysg uwch yng Nghymru sy'n cefnogi myfyrwyr pan fyddant ei angen fwyaf ac yn galluogi ein prifysgolion i gystadlu'n rhyngwladol.

Fel y dywedais yn glir ar 27 Medi, cymeradwyodd y Cabinet yr egwyddorion yn yr adroddiad. Bydd ein hymateb yn adeiladu ar ein prif egwyddorion, sef:

- cynnal egwyddor cyffredinoliaeth o fewn system flaengar;
- mabwysiadu dull o weithio sy'n canolbwyntio ar y system gyfan yng Nghymru;
- rhannu buddsoddiad rhwng y Llywodraeth a'r rheini sy'n elwa'n uniongyrchol ohono;
- gwella hygyrchedd, a mynd i'r afael â rhwystrau fel costau byw; a
- sicrhau bod cymorth myfyrwyr yn gludadwy ar draws y DU.

Yn gywir

**Kirsty Williams AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

cc Alun Davies, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Julie James, y Gweinidog dros Sgiliau a Gwyddoniaeth

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.